Adroddiad

# Trefniadau Trochi yn y Gymraeg yng Nghyngor Sir Caerfyrddin

Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Sir Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Partneriaeth Trochi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Gâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 29/06/2026 |

### Cyd-destun

Mae dwy Ganolfan Drochi Iaith yn gweithredu yn Sir Caerfyrddin, sef Canolfan Gwên yn Ysgol Gymraeg Maes y Gwendraeth a Chanolfan Brianne yn Ysgol Bro Dinefwr. Yn hanesyddol, roedd y ddarpariaeth yn dibynnu'n helaeth ar nifer gyfyngedig o ganolfannau ac roedd mynediad yn heriol i rai dysgwyr oherwydd pellteroedd teithio sylweddol.

Agorwyd Canolfan Gwên yn Ysgol Gymraeg Maes y Gwendraeth yn 2022. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli mewn adeilad pwrpasol, sy'n annibynnol o'r ysgol uwchradd, ac mae'n darparu tri gofod dysgu, sef ystafell uwchradd, ystafell gynradd ac ystafell dawel.

Agorwyd Canolfan Brianne yn Ysgol Bro Dinefwr ym mis Tachwedd 2025. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli mewn ystafell ddosbarth sydd wedi'i haddasu'n benodol i ddiwallu anghenion disgyblion newydd-ddyfodiaid o oedran cynradd.

Mae trefniadau hefyd ar waith i agor trydedd Canolfan Drochi Iaith ar safle Ysgol Gyfun y Strade i wasanaethu ardal Llanelli, gyda'r ddarpariaeth i ddechrau yn 2027.

Yn ogystal â'r canolfannau sefydlog, mae'r awdurdod yn sefydlu canolfannau drochi dros dro mewn ysgolion ar draws y sir yn unol â'r galw lleol. Sefydlwyd Canolfan Y Wiber yn ystod tymor yr haf i ymateb i'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth trochi iaith.

Mae disgyblion hwyrddyfodiaid o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn mynychu'r canolfannau am gyfnod o ddeg wythnos, bedwar diwrnod yr wythnos. Cyn dechrau'r rhaglen, mae athrawon y canolfannau yn ymweld â'r disgyblion, eu hysgolion a'u rhieni neu warcheidwaid i gefnogi'r broses bontio.

Mae'r awdurdod hefyd yn gweithredu trefniant traws-sirol gydag awdurdodau lleol Ceredigion a Phenfro i sicrhau darpariaeth briodol i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion ger ffiniau'r awdurdodau.

## Crynodeb

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ar gyfer trefniadau trochi hwyr Cymraeg. Mewn cyfnod byr, maent wedi ehangu'r ddarpariaeth yn llwyddiannus, dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol a datblygu gallu arweinwyr canolfannau i gyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd a gwella'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth yn ddigon systematig dros amser. Mae arweinwyr tîm yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac yn hyrwyddo diwylliant cryf o gydweithio, rhannu arfer effeithiol a gwella parhaus.

Mae'r awdurdod yn sefydlu partneriaethau effeithiol gydag ysgolion, awdurdodau lleol eraill a sefydliadau allanol sy'n cefnogi datblygiad y ddarpariaeth. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys secondiadau, ymweliadau a rhannu arfer effeithiol, yn cryfhau gallu'r gweithlu ac yn cyfrannu at wella ansawdd y gwasanaeth.

Mae staff yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad Cymraeg yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon, yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gymuned. Mae'r profiadau hyn yn datblygu hyder disgyblion i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o werth y Gymraeg fel iaith fyw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn datblygu eu hyder ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol wrth gyfathrebu.

Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth priodol sy'n cefnogi eu lles a'u cynnydd. Mae'r amgylcheddau dysgu yn groesawgar ac yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae arweinwyr yn defnyddio adborth partneriaid yn effeithiol i werthuso a mireinio'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn hyrwyddo trefniadau trochi hwyr yn ddigon amlwg fel rhan o'i brosesau derbyn. O ganlyniad, nid oes gan bob rhiant fynediad at y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd amserol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol barhau i wella:

A1 Hyrwyddo trefniadau trochi yn y Gymraeg yn glir fel rhan o brosesau derbyn disgyblion yr awdurdod lleol

A2 Gwerthuso effaith y trefniadau trochi yn y Gymraeg yn systematig dros amser

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif werthusiad

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ar gyfer trefniadau trochi hwyr Cymraeg. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer trochi iaith sy'n canolbwyntio ar ehangu mynediad a meithrin hyder ieithyddol i ddisgyblion. Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi ehangu'r ddarpariaeth yn sylweddol, dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ar draws y tîm a grymuso arweinwyr canolfannau i gyfrannu'n gynyddol at weithgareddau sicrhau ansawdd a datblygu'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro’n  gwerthuso effaith y ddarpariaeth yn ddigon systematig dros amser.

Mae’r arweinwyr tîm yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac yn rhannu arferion addysgeg trochi iaith yn llwyddiannus. Mae eu hangerdd dros ddatblygu'r Gymraeg yn amlwg yn eu gwaith ac maent yn meithrin diwylliant cadarn o gydweithio, arloesi a gwella parhaus.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm penodol sy’n cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i gaffael medrau gwrando a siarad Cymraeg yn llwyddiannus. Defnyddir fframwaith a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid lleol i gyflwyno geirfa a phatrymau iaith mewn dilyniant bwriadus a chlir sy’n galluogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu yn raddol. Mae gweithgareddau dysgu yn darparu cyd-destunau ysgogol ar gyfer defnyddio’r Gymraeg ac yn sicrhau bod ymarfer ac atgyfnerthu’r iaith wrth wraidd y ddarpariaeth. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o ardaloedd chwarae rôl sy’n cael eu cyfoethogi i gyd-fynd â ffocws yr uned waith bresennol. Yn ogystal, mae staff yn addasu’r cynnwys yn fwriadus i ymateb i anghenion a diddordebau disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at eu cymhelliant a’r cynnydd a wnânt wrth gaffael y Gymraeg.

Yn ystod eu cyfnod yn y ganolfan drochi, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau gwrando a siarad Cymraeg. O gyfnod cynnar yn y broses drochi, mae llawer yn caffael geirfa sylfaenol ac yn dechrau defnyddio patrymau iaith cyfarwydd i fynegi eu hanghenion. Wrth i’w hyder gynyddu, mae’r rhan fwyaf yn deall ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd, gyda llawer yn defnyddio cystrawennau cywir yn gynyddol wrth gyfathrebu. Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu’n bwrpasol â’u dysgu. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac yn cyfranogi gyda brwdfrydedd mewn gweithgareddau sy’n datblygu eu medrau iaith.

Mae staff yn fodelau iaith effeithiol, gan ddefnyddio’r Gymraeg yn gywir, yn gyson ac yn bwrpasol drwy gydol y dydd. Maent yn creu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac yn meithrin amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo’n ddigon hyderus i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae staff yn defnyddio ystod dda o ddulliau trochi hwyr i gyflwyno ac atgyfnerthu geirfa a chystrawennau newydd, gan sicrhau cyflymder da i sesiynau a

darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso’r iaith mewn cyd-destunau ystyrlon.

### Ciplun: Cyfoethogi'r ddarpariaeth drochi drwy ddefnyddio cyd-destunau bywyd go iawn ystyrlon

Mae staff yn defnyddio fframwaith patrymau iaith craidd fel sail i'r ddarpariaeth drochi ac yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'r patrymau mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Maent yn cydweithio â phartneriaid lleol i greu profiadau dilys sy'n rhoi pwrpas clir i ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld ag ardal natur yr ysgol uwchradd i weld y geifr cyn cynllunio posteri a chreu hysbysebion digidol i'w gwerthu. Yn ogystal, mae ymweliadau â'r gymuned a busnesau lleol yn rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, er enghraifft wrth archebu mewn caffi.

O ganlyniad, mae disgyblion yn gweld gwerth y Gymraeg fel iaith gyfathrebu bob dydd. Maent yn datblygu hyder cynyddol i ddefnyddio'r patrymau iaith mewn sefyllfaoedd newydd ac yn trosglwyddo eu dysgu yn fwy effeithiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae’r amgylcheddau dysgu yn ysgogol, ac yn cefnogi’r dysgu yn effeithiol. Mae staff yn cydweithio’n dda ac yn meddu ar wybodaeth drylwyr o anghenion y disgyblion. Maent yn gwneud addasiadau cynnil ac effeithiol sy’n galluogi disgyblion sydd ag anghenion penodol i dderbyn cefnogaeth bwrpasol o fewn y dosbarthiadau. Er enghraifft, trefna’r staff fod encil tawel o fewn strwythur y dosbarth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion penodol a defnyddir y rhain yn effeithiol.

Mae staff yn holi ac arsylwi yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion ac i addasu gweithgareddau yn unol â’u hanghenion. Maent yn darparu pecyn ôl-ofal defnyddiol ar gyfer ysgolion, er anghyson yw effaith y ddarpariaeth ar ddisgyblion.

Mae’r arlwy a phrofiadau dysgu ysgogol a pherthnasol yn cyfrannu at feithrin agweddau cadarn at eu dysgu gan y disgyblion. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn gyson dda a rhennir gwybodaeth berthnasol yn wythnosol gyda’r ysgol a’r cartref. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cwricwlwm, patrymau iaith a chyflawniadau’r disgyblion.

Mae staff yn trefnu sesiynau dosbarth cyfan, gwaith grŵp a chydweithio mewn parau ac mae disgyblion yn cydweithredu a chyd-ddysgu yn hwylus. Mae’r arlwy yn diwallu anghenion y disgyblion ar hyd yr ystod oedran. Mae staff yn gwneud addasiadau pwrpasol er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol y disgyblion yn cael y sylw angenrheidiol. Mae’r drefn yn cynorthwyo’r disgyblion i ddatblygu medrau arwain ac empathi yn ogystal â chreu ethos cynhwysol a chynhaliol.

Mae’r trefniadau ymarferol dydd i ddydd rhwng yr ysgol a’r canolfannau trochi yn drefnus a chydlynus, gyda’r penderfyniadau’n  cael eu gyrru gan anghenion lles a diogelwch y disgyblion. Mae staff y canolfannau yn glir am eu rolau, yn dilyn trefn gyson a thyn sydd yn ei dro yn ennyn hyder a sicrwydd y disgyblion a’r rhieni a gofalwyr. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn mynychu’r canolfannau yn hapus eu byd, yn setlo’n gyflym ac mae presenoldeb bron yn ddieithriad yn gyson dda.

Mae'r awdurdod yn datblygu partneriaethau cynhyrchiol gydag ysgolion, awdurdodau lleol eraill a sefydliadau allanol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys secondiadau, ymweliadau â chanolfannau eraill a rhannu arfer effeithiol, yn cryfhau gallu'r gweithlu ac yn cefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o bartneriaeth a diben cyffredin ymhlith y tîm, ac mae ysgolion yn mynegi hyder cynyddol yn ansawdd a gweledigaeth y ddarpariaeth.

**Ciplun: Datblygu capasiti'r gweithlu drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol**

Mae arweinwyr yn datblygu capasiti'r gweithlu yn fwriadus drwy gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ymuno â'r tîm trochi am gyfnod penodol. Mae'r profiadau hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o addysgeg caffael iaith, cydweithio'n agos ag ymarferwyr profiadol ac ymarfer dulliau trochi hwyr effeithiol. O ganlyniad, mae athrawon yn dychwelyd i'w hysgolion gydag arbenigedd cynyddol i gefnogi disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid a rhannu eu harfer gyda chydweithwyr. Yn ogystal, mae'r trefniadau hyn yn datblygu llif cynaliadwy o ymarferwyr medrus, yn cryfhau arweinyddiaeth ddosranedig, ac yn cynyddu gallu'r awdurdod lleol i ehangu'r ddarpariaeth drochi mewn ffordd strategol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adborth partneriaid yn fwriadus i fireinio'r ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae ysgolion yn mynegi hyder yn ansawdd y gwasanaeth. Mae’r awdurdod yn esbonio buddion addysg trochi trwy gyfres o fideos defnyddiol. Er hyn, nid yw'r awdurdod lleol yn hyrwyddo trefniadau trochi hwyr yn ddigon amlwg fel rhan o'i brosesau derbyn nac yn darparu gwybodaeth ddigon cynhwysfawr i rieni am y ddarpariaeth a'i manteision. O ganlyniad, nid oes gan bob rhiant fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd amserol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr, a phenaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyfredol a chyn ddisgyblion) i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol o waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)/ cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026